Rhifyn 35
gan Gwaith Maes

Croeso i we-rifyn diweddaraf Cymdeithas Gwaith Maes.
Gobeithio bydd y cynnwys wrth eich bodd!

Yn y golofn yma yn y rhifyn diwethaf (Gwanwyn 2007) yr oeddwn yn son am y nodweddion tywydd oedd yn arwyddion pendant fod yr Haf ar y ffordd, ond serch yr arwyddion hynny, tywydd digon siomedig y cafwyd dros y misoedd diwethaf. Ond efallai mai darogan 'Haf Bach Mihangel' yr oeddwn bryd hynny!

A do, fe gyrhaeddodd yr 'haf bach' hwnnw bellach ac yn gysylltiedig ar tywydd mwyn diweddar, ambell i sylw go rhyfedd yn y wasg! Fe ddarllenais fod yna dystiolaeth yn dangos fod yna lai o ddail wedi syrthio o'r coed eleni na sydd mewn blynyddoedd blaenorol! Ydych chi wedi sylwi ar hyn? Yr hyn dwi yn sicr ohono, mae'r lliwiau sydd ar ddail y coed yr adeg yma o'r flwyddyn yn rhagorol ac yn ddigon o reswm (os oes angen rheswm o gwbwl) i bawb i fynd allan am dro ac i weld un o olygfeydd mwyaf godidog byd natur.

Ond beth am olrhain hanes ac ystyr 'Haf Bach Mihangel' - Pwy oedd Mihangel? Oedd gan Mihangel bwerau darogan tywydd efallai? Cwestiynau digon dilys i'w gofyn mae'n siwr, ond dim ond drwy ofyn cwestiynau treiddgar yr ydym yn medru darganfod nifer o ffeithiau diddorol i gefndir amryw o bynciau, gan gynnwys pynciau amgylcheddol ac ati. Mae'n bwysig felly dysgu sut mai geirio a holi cwestiwn yn y modd mwyaf effeithiol er mwyn sicrhau'r ateb gorau. Yn y rhifyn yma o Gwaith Maes bydd Ella Owens yn dangos sut mae defnyddio ein sgiliau llafar ac ysgrifenedig er mwyn 'geirio cwestiynau effeithiol' a fydd yn ein galluogi i gael atebion ardderchog i'n gwaith ymchwil. Dawn arbennig iawn!

Mae defnyddio geiriau yn y ffordd fwyaf effeithiol felly yn medru cyfleu nifer fawr o wybodaeth a drwy edrych ar fap o Gymru gallwn ymfalchïo fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn modd effeithiol iawn wrth roi enwau priodol iawn i leoliadau yn ein gwlad. Beth am yr enw 'Penrhyndeudraeth' er enghraifft - enw penigamp ar aneddiad sydd wedi ei leoli ar 'benrhyn rhwng dau draeth' - sef aberoedd yr afonydd Glaslyn a 'r Dwyryd. Yr y rhifyn yma o Gwaith Maes mae yna ddwy erthygl sy'n disgrifio sut y gall astudio enwau cartrefi a lleoliadau yn eich ardal chi ddeud cymaint am hanes a thirlun y lleoliad hwnnw.

Beth am ddarllen yr erthyglau yma ac yna creu rhestr o enwau yn eich ardal chi lle y medrwch astudio ymhellach.

Mae enwau lleoliadau a geir ar fap o Gymru wedi ei sefydlu ers tro byd ond un enw ‘newydd’ a geir yn y dyfodol yw Hafod Eryri - sef enw'r Ganolfan Newydd ar Gopa’r Wyddfa. Yn ystod y rhifynnau diwethaf o Gwaith Maes yr ydym wedi eich hysbysu am y newyddion diweddaraf am yr adeilad newydd ar y copa. Yn y rhifyn yma cewch eto'r newyddion diweddaraf ynghyd a hanes disgyblion Ysgolion Cynradd Beddgelert a Llanberis, sydd, dros y misoedd diwethaf wedi bod yn brysur iawn yn paratoi deunydd, a fydd yn cael ei gladdu mewn ‘capsiwl amser’ ac yna ei roi yn sylfaen yr adeilad newydd. Bwriedir ail-agor y capsiwl yn y flwyddyn 2057!

Mwynhewch y rhifyn yma o Gwaith Maes ac os oes gennych stori ddiddorol am ‘waith maes’ yr ydych yn ymwneud ag ef ar hyn o bryd, be am anfon eich erthygl atom yma ac fe fyddwn yn falch iawn o rannu eich profiadau diddorol gyda gweddill ein darllenwyr.

Hwyl am y Tro!